



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Cwricwlwm i Gymru Cyfres Uwch Arweinwyr – Clipiau Cryno

Arwain Newid 1





Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd gychwynnol: Beth yw'r achos dros newid?




Rhestrwch y rhesymau 'da chi'n feddwl sydd yn bwysig:



Gweithgaredd 1

Cyfnodau trawsnewid Bridges



SUT I GEFNOGI POBL I REOLI'R DIWEDD

- Cyfathrebu LLAWER IAWN! A dal ati i gyfathrebu, diweddarau, hysbysu, cynghori.
 - A yw staff yn cael cyfleoedd cyson i siarad yn ffurfiol?
 - A yw staff yn cael cyfleoedd cyson i siarad yn affurfiol?
 - A ddefnyddir cyfarfodydd staff i rannu a thrafod? A oes ffyrdd electronig o rannu gohebiaeth - gan osgoi'r posibilrwydd o rannu negeseuon anghywir?
 - Sut all staff rhan amser fod yn rhan o'r un drafodaeth?
 - Pa mor aml all staff siarad efo cydweithwyr tu allan i'r ysgol?
- Rhoi gwybodaeth bendant a manwl am beth yn union fydd yn wahanol, a phethau fydd yn aros yr un fath.
 - A oes cyfle i staff ystyried beth na fydd yn newid h.y. yr un dosbarth, yr un grŵp oedran, yr un gwaith efo'r un aelodau o'r tîm craidd? A yw staff wedi cael cyfle i ystyried canllawiau'r cwricwlwm er mwyn deall beth fydd y gwahaniaethau?
- Annog pobl i wneud rhestr bersonol o'r pethau a fydd yn dod i ben iddyn nhw, a nodi'r rheiny y byddant yn siomedig yn eu cylch.
- Ymysg y pethau a fydd yn dod i ben, annog pobl i sylwi ar y pethau y byddant yn falch o gael gwared arnynt. Beth yw eu rhwystredigaethau ar hyn o bryd? A yw'r rhain yn rhan o'r newidiadau? Nid yw pob diwedd yn gollod - ydyn nhw'n falch o unrhyw agweddau a fydd yn newid?
- Dangos empathi am bob colled sydd o bwys i bobl eraill, hyd yn oed pe byddent yn llai arwyddocaol i chi.
- Helpu pobl i ddeall fod hyn yn rhan naturiol o'r broses newid, ac y gall eraill fod yn teimlo'r un fath.
- Cyfleu yn glir, ac yn union, pam bod angen newid - a oes rhesymeg glir pam?
- Dangos parch tuag at y gorffennol. Cydnabod beth fu'n dda ac yn llwyddiannus - a chyfraniadau pobl at hyn - e.e. yn y dysgu a'r addysgu. Dangos sut y gellir parhau â gwerthoedd gorau blaenorol.



SUT I GEFNOGI POBL DRWY'R PARTH NIWTRAL

- Gosod patrymau cyfathrebu newydd, cyson ac aml, a diweddarau pawb wrth i'r newid fynd yn ei flaen (mae hyn yn helpu pawb i aros gyda'i gilydd a chreu undod).
- A oes cyfleoedd i greu ardal adnoddau ble gall staff fynd i gael mwy o wybodaeth a darllen yn ehangach?
- A oes systemau i allu gwrandao ar sylwadau pobl ar y broses newid, a'u hystyried? Mae hyn yn cryfhau ymddiriedaeth yn ystod y broses newid gan fod sylwadau yn cael sylw yn syth - a yw arweinwyr yn rhan o'r systemau hyn? A yw gwybodaeth yn llifo i'r ddau gyfeiriad fel bod arweinwyr yn gwybod sut mae pawb yn teimlo?
- Annog pobl i sylwi ar y newidiadau sy'n digwydd - a'u hymateb hwythau iddynt - mae hyn yn helpu pobl i ddysgu oddi wrth y broses ac i'w rheoli eu hunain yn well.

Trefnu fforymau cyson i bobl rannu eu profiadau a'u syniadau fel bod modd iddynt ddysgu oddi wrth y naill a'r llall a chryfhau agosatwydd y tîm, yn enwedig os oes timau newydd yn dod at ei gilydd.

Helpu pobl i lunio a rhannu trosiadau creadigol - difyr hyd yn oed - sy'n disgrifio'r daith tuag at newid.

A yw staff yn fodlon rhannu eu profiadau o'r hyn helpodd nhw yn ystod y cyfnod o newid, fel bod modd defnyddio hyn eto?

- Pa ran sydd gan dysgu proffesiynol i'w chwarae?
 - Faint o annibyniaeth sydd gan staff wrth benderfynu ar eu dysgu proffesiynol eu hunain?
 - A gaiff staff gyfle i glywed gan gydweithwyr mewn ysgolion eraill?
 - Pa sgiliau a gwybodaeth fydd eu hangen fel rhan o'r newidiadau hyn - a oes cyfle i ystyried beth yw ystyr cynllunio'r cwricwlwm?

HELPU POBL EFO DECHRAU NEWYDD

- Er bod llawer o wybodaeth a phrofiad o'r newid wedi'i rannu hyd yma, mae angen atgyfnerthu'r wybodaeth ganlynol:
 - **Pwrpas** - sy'n egluro'r rhesymau dros y dechrau newydd, er mwyn i bobl feddwl;
 - **Darlun** - o sut fydd y dechrau newydd hwnnw yn edrych ac yn teimlo, i dano'r dychymyg;
 - **Cynllun** - sy'n dangos sut caiff y dechrau newydd ei wireddu, i ennyn ffydd;
 - **Rhan i'w chwarae** - sy'n gadael i bobl gyfrannu at y cynllun a'r dechrau newydd, i ennyn ewyllys pobl.
- Beth yw gweledigaeth y newid? Sut mae staff yn rhagweld y bydd y 4 Diben yn edrych yn yr ysgol? Sut mae hyn yn trosi i'w dosbarthiadau? Beth yw eu cyfraniad?




Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

- A oes mabwysiadwyr cynnar all weithio efo eraill yn yr ysgol? A fydd timau llai yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r newidiadau? All profiadau ysgolion eraill helpu fel bod syniadau, a gwersi a ddysgwyd, yn cael eu rhannu?
- Er mwyn cadw momentwm tuag at ddiwedd y newid, ac annog pobl i gadw at y ffyrdd newydd o weithio, bydd angen:
 - gofalu fod pob neges yn gyson
 - chwilio am unrhyw lwyddiannau cynnar, a'u cydnabod
 - rhoi 'brand' ar y dechrau newydd i helpu pobl gael hunaniaeth newydd
 - dathlu gweithredu llwyddiannus unwaith fydd y dechrau newydd wedi ei sefydlu.



Gweithgaredd 2

Cromlin Kubler-Ross yng nghyd destun newid mewn ysgol




Ystyriwch y cromlin yng nghyd destyn y newidiadau sydd yn digwydd oherwydd Cwricwlwm i Gymru:

- Ar pa gam ydych chi rwan?
- Ble oeddach chi? Beth sydd am eich helpu i symud ymlaen ar hyd y cromlin?



Gweithgaredd 3

Deall a chefnogi pobl trwy'r newid



Ystyriwch y categoriâu yn y model uchod:

- Pa gategori fydddech chi'n rhoi eich hun yn naturiol?
- O fewn cyd-destun Cwricwlwm i Gymru?
- Beth yw manteision pob grŵp?
- Beth yw'r sialensau sydd angen eu hystyried?
- Sut all y grwpiau yma gefnogi eu gilydd trwy'r newid?
- A oes angen arloeswyr bob amser?